

Trosolwg Thema Blwyddyn 5 a 6 Tymor y Gwanwyn, 2026

Patagonia! *Dyniaethau*

Ein thema am y tymor yw “**Ble mae Patagonia?**”. Trwy'r Dyniaethau, bydd y disgyblion yn cymharu Patagonia â Chymru, gan edrych ar y daearyddiaeth, tirweddau, hinsawdd a bywyd bob dydd. Yn y Celfyddydau Mynegiannol, byddant yn defnyddio ffilm a delweddau o'u hardal leol i greu gwaith creadigol. O fewn lechyd a Lles, bydd y disgyblion yn myfrio ar eu hunaniaeth a'u lle o fewn eu cymuned, gan gymharu eu profiadau â chymunedau ym Mhatagonia.

Thematic Overview Year 5 & 6 Spring Term, 2026

Patagonia! *Humanities*

Our theme for the theme is “**Where is Patagonia?**”. Through the Humanities, pupils will compare Patagonia with Wales, exploring geography, landscapes, climate and daily life. In the Expressive Arts, they will use film and images from their local area to create creative work. Within Health and Wellbeing, pupils will reflect on their own identity and their place within their community, comparing their experiences with communities in Patagonia.



Bydd profiadau y dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Pedwar Diben drwy ein cymeriadau...



Dysgwyr
uchelgeisiol,
galluog



Dinasyddion
egwyddorol,
gwybodus



Unigolion
iach,
hyderus



Cyfranwyr
mentrus,
creadigol

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Byddwn yn datblygu ein sgiliau i ysgrifennu testunau dychmygol a chreadigol mwy manwl. Byddwn yn dysgu sut i ysgrifennu dyddiadur gan ddefnyddio llais ac emosiynau cymeriad, ac yn creu portread cymeriad gyda mwy o ddisgrifiad a manylder. Byddwn yn defnyddio **Darllen Co** ac **Oxford Reading Buddy** i wella ein darllen, ein dealltwriaeth a'n gallu i wneud casgliadau o'r testunau a ddarllenwn.

Mathemateg a Rhifedd

Byddwn yn defnyddio mesur i ddilyn a chreu ryseitiai ac i gyflwyno data. Byddwn yn trefnu a dehongli rhifau i ddeall trefn amser. Byddwn yn cymharu data ac yn defnyddio ystadegau, gan barhau i ddefnyddio **Rhifau Rhagorol** a **TT Rockstars** i wella cyflymder a hyder yn ein sgiliau rhif.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Byddwn yn dysgu am ddeunyddiau a chreigiau, gan wahaniaethu rhwng solidau, hylifau a nwyon. Byddwn yn archwilio grymoedd a'r Ddaear, gan ddysgu am gysawd yr haul a symudiad y Ddaear mewn perthynas â'r Haul. Byddwn hefyd yn dysgu am gadwyni bwyd a sut mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar ei gilydd.

Y Dyniaethau

Byddwn yn dysgu am Batagonia a'i chysylltiad â Chymru, gan archwilio pam y symudodd pobl o Gymru yno a sut y datblygodd y gymuned Gymreig. Byddwn yn dysgu am gyfnodau hanesyddol allweddol ac yn cymharu sut mae newidiadau hanesyddol wedi llunio hunaniaeth pobl ym Mhatagonia a Chymru dros amser.

Celfyddydau Mynegiannol

Byddwn yn dysgu am hunan-ddelwedd a sut i bortreadu cymeriadau trwy berfformio, gan archwilio themâu o Batagonia a thraddodiadau Cymreig. Byddwn yn canu, dawnsio ac actio, gan edrych ar sut i ddod â sgriptiau a straeon traddodiadol yn fyw. Bydd cyfleoedd i ymarfer, gwella a pherfformio i gynulleidfa, yn ogystal â defnyddio offer recordio i gadw tystiolaeth o'n gwaith.

Iechyd a Lles

Byddwn yn dysgu am "**Breuddwydion a Dyheadau**", gan helpu disgyblion i ddeall eu lle ym mywyd yr ysgol, yr ardal leol a'r gymuned fyd-eang. Byddwn yn dathlu ein gwahaniaethau ac yn archwilio sut mae pawb yn rhan bwysig a gwerthfawr o fywyd yr ysgol.

The learning experiences will focus on developing the Four Purposes through our characters...



Ambitious,
capable
learners



Ethical,
informed
citizens



Healthy,
confident
individuals



Enterprising,
creative
contributors

Languages, Literacy and Communication

We will develop our skills in writing more detailed imaginative and creative texts. We will learn how to write a diary using a character's voice and emotions, and create a character portrait with more description and detail. We will use Darllen Co and Oxford Reading Buddy to improve our reading, understanding, and ability to make inferences from the texts we read.

Mathematics and Numeracy

We will use measuring skills to follow recipes and present data and look at arranging numbers to show time order. We will use number skills to compare and use statistics. We will continue to use Big Maths and TT Rockstars to improve the speed of our skills.

Science and Technology

We will learn about materials and rocks, distinguishing between solids, liquids and gases. We will explore forces and the Earth, learning about the solar system and the movement of the Earth in relation to the Sun. We will also learn about food chains and how plants and animals depend on each other.

Humanities

We will learn about Patagonia and its connection to Wales, exploring why people from Wales moved there and how the Welsh community developed. We will learn about key historical periods and compare how historical changes have shaped the identity of people in Patagonia and Wales over time.

Expressive Arts

We will learn about self-image and how to portray characters through performance, exploring themes from Patagonia and Welsh traditions. We will sing, dance and act, focusing on how to bring scripts and traditional stories to life. There will be opportunities to practice, improve and perform for an audience, as well as to use recording equipment to capture evidence of our work.

Health and Wellbeing

We will learn about “**Dreams and Aspirations**”, helping pupils to understand their place within school life, the local area and the global community. We will celebrate our differences and explore how everyone is an important and valued part of school life.